Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Rhagfyr 2018

At: Meddygon Teulu
Fferyllwyr
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd

Annwyl Gyfaill,

**Y diweddaraf am frechlynnau ffliw**

**Archebu ar gyfer 2019-20**

Yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2018) 045 dyddiedig 6 Tachwedd 2018, rhoddwyd canllawiau ar sut i archebu brechlynnau ffliw ar gyfer y tymor 2019-20. Mae'n cynnwys brechlynnau y disgwyliwyd iddynt gael eu trwyddedu mewn pryd ar gyfer y ffenestr archebu 2019-20.

**Mae brechlyn meithriniad celloedd ffliw pedwarfalent (QIVc) bellach wedi cael ei drwyddedu ac mae ar gael i'w archebu ar gyfer y tymor 2019-20.** Dywedodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu fod y brechlyn hwn yn effeithiol ar gyfer ei ddefnyddio gan y rheini sy'n:

- wynebu risg glinigol;
- oedolion cymwys dan 65 oed;
- 65 oed a hŷn.

Nid argymhellir defnyddio QIVc yn hytrach na brechlynnau eraill, ond fe'u cynigir fel dewis gwahanol i'r brechlynnau sydd ar gael yn awr. Ceir rhagor o fanylion yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru(2018) 045:

https://gov.wales/docs/dhss/publications/whc2018-045cy.pdf

Nid yw'r brechlyn ffliw trifalent dos uchel (TIV-HD) wedi derbyn trwydded eto. Mae'n bosibl y bydd meddygon teulu a fferyllwyr yn penderfynu archebu'r brechlynnau a argymhellir sydd eisoes ar gael neu aros hyd nes y bydd y TIV-HD wedi cael ei drwyddedu.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ebost • Email
HealthProtection@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

**Y brechlyn pedwarfalent (QIV) ar gyfer y tymor ffliw 2018-19**

Rydym yn ymwybodol bod rhywfaint o gyfyngiad wedi bod y tymor hwn ar y cyflenwadau ychwanegol o'r brechlyn pedwarfalent sydd ar gael mewn rhai ardaloedd. Mewn perthynas â'r brechlyn pedwarfalent (QIV) a argymhellir ar gyfer oedolion o dan 65 oed, mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi cadarnhau na fyddai'n atal y QIV rhag cael ei symud rhwng practisau petai'r cyflenwad yn isel, neu petai ddim cyflenwad o gwbl, ar yr amod bod:

- y feddygfa sydd â'r stoc dros ben yn gallu sicrhau bod y brechlyn wedi cael ei gadw mewn modd priodol, dan yr amodau cywir lle mae'r tymheredd wedi cael ei reoli;
- cofnod wedi cael ei gadw o'r tymheredd sy'n cael ei fonitro;
- y feddygfa sy'n gwneud cais am y QIV yn gallu cadarnhau pob sicrwydd a roddir;
- y brechlyn yn gallu cael ei gludo mewn modd priodol o dan yr amodau cywir.

Mae hyn yn golygu bod clinigwyr yn gallu gweithio gyda meddygfeydd a fferyllfeydd eraill, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny, er mwyn symud y brechlyn yn ddiogel rhwng lleoliadau, i sicrhau bod stoc ddigonol o'r brechlyn yn cael ei ddosbarthu i adlewyrchu'r galw gwirioneddol. Mae canllawiau ynglŷn â hyn ar gael ym Mhennod 3 "y Llyfr Gwyrdd", sy'n trafod storio, dosbarthu a gwaredu brechlynnau.

https://www.gov.uk/government/publications/storage-distribution-and-disposal-of-vaccines-the-green-book-chapter-3 (Saesneg yn Unig)

Dylai darparwyr sy'n bwriadu cyflenwi brechlyn neu dderbyn brechlyn ddilyn yr argymhellion perthnasol.

Diolch i chi am eich cymorth parhaus i gynyddu'r nifer sy'n cael y brechlyn ffliw ac i ddiogelu rhagor o bobl rhag y clefyd ataliadwy hwn.

Yn gywir



Dr Marion Lyons
Y Prif Swyddog Meddygol a Chadeirydd Grŵp Imiwneiddio Cymru

Anfonir at:

Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd
Arweinwyr ym maes Imiwneiddio, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru